Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd ACPO** |
| **Dyddiad:** | **21 Ionawr 2026** |
| **Amser:** | **1.30pm–3.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies<br>• Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Linda Williams* (ar-lein) |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, Arolygydd Lewis Simpson (LS)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM)<br>• Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro yr Adran Ymchwilio i Droseddau (CID), Ross Evans (RE)** (ar-lein)<br>• Ditectif Uwch-arolygydd Diogelu Pobl Fregus, Wayne Bevan (WB)*** (Ar-lein) |
| **Ymddiheuriadau:** | • Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans |

*Roedd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Linda Williams yn bresennol ar gyfer eitem 4a Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl, ac eitem 3a Diweddariad Pobl a Datblygu Sefydliadol ar yr agenda
** Roedd y Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro CID, Ross Evans (RE) yn bresennol ar gyfer eitem 4a Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl ar yr agenda.
*** Roedd y Ditectif Uwch-arolygydd Diogelu Pobl Fregus, Wayne Bevan (WB) yn bresennol ar gyfer eitem 4a Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl ar yr agenda.

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 107 | Strategaeth Partneriaeth Weithredol i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2026. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Wedi'i ychwanegu at agenda'r Bwrdd Plismona ar gyfer Chwefror 2026. |

| | | |
|---|---|---|
| PB 108 | Y Prif Gwnstabl i drafod cyflwr mewnol ac allanol gorsafoedd o fewn ardal yr heddlu gyda'r Pennaeth Ystadau. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae Uwch-reolwr Cyfleusterau Ystadau wedi ymgysylltu ag arolygwyr pob Uned Reoli Sylfaenol ac wedi trefnu ymweliadau â gorsafoedd ym mis Rhagfyr ac ym mis Ionawr.<br>O hyn, bydd dogfen gwmpasu yn cael ei datblygu yn cynnwys amcangyfrifon cyllideb ar gyfer gwaith i'w hystyried gan y Grŵp Prif Swyddogion.<br>Wedyn, yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd yn cydlynu'r gwaith yn unol ag amserlen a ddarperir. |
| PB 109 | Yr heddlu i ddarparu amserlen ar gyfer gweithredu a lansio'r prosiect Atal, Ymyrryd, Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. | **Ar y gweill** |
| PB 110 | Y CHTh i drafod â thîm Gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sefydlu grŵp strategol gyda'r heddlu dan gadeiryddiaeth y CHTh ar gyfer cyfiawnder ieuenctid. | **Ar y gweill** |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Diweddariad Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd.

Yn dilyn penodiad ffurfiol y Prif Gwnstabl yn 2025, mae'r heddlu wedi diweddaru'r dogfennau 'Ein Cynllun' ac 'Ein Haddewid'. Mae'r dogfennau hyn wedi'u diweddaru yn dilyn ystyried adborth o sawl ffynhonnell yn ystod y misoedd diwethaf, e.e. sesiynau diwylliant ar-lein dan arweiniad y Prif Gwnstabl, diwrnod cwrdd i ffwrdd uwch-arweinwyr. Cyfarfu gweithgor o arweinwyr yr heddlu sy'n arwain swyddogaethau gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â diwylliant â'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth Pobl a'r Sefydliad i drafod yr adborth a chytuno ar y newidiadau. Roedd y newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag ailenwi 'Ein Hadduned' i 'Ein Hadduned Diwylliannol', i adlewyrchu'r ffaith bod pawb o fewn yr heddlu i gymryd perchnogaeth dros y rhan maen nhw'n ei chwarae wrth greu'r diwylliant a ddymunir a hyrwyddo ymddygiad i adeiladu "un tîm cynhwysol a thosturiol".

Mae cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno sy'n cwmpasu lansio, cyfathrebu a gwreiddio proses "Ein Hadduned Diwylliannol" ym mhob strategaeth, proses a gweithgaredd datblygu perthnasol ar gyfer diwylliant a moeseg pobl. Cododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bwysigrwydd cynnwys yr Adduned Diwylliannol yn yr hyfforddiant cychwynnol i swyddogion. Cytunodd y Prif Gwnstabl a dywedodd ei fod eisoes wedi trefnu rhoi mewnbwn i hyfforddwyr ynghylch yr adduned.

O ran y broses ailachredu tair blynedd ar gyfer dyfarniad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, mae'r heddlu wedi cyflawni ailachrediad yn dilyn yr asesiad ym mis Rhagfyr 2025. Cyflwynodd yr ymarferydd Buddsoddwyr Mewn Pobl y canlyniadau i'r CHTh a'i dîm gweithredol ynghyd â'r Prif Swyddogion ym mis Ionawr 2026.

Mae cynllun gweithredu ymgysylltu i fynd i'r afael â'r adborth wedi'i lunio ar ffurf drafft ynghyd â chrynodeb newydd o'r cynllun gweithredu Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni i'w ddefnyddio mewn Sioeau Teithiol Prif Swyddogion, digwyddiadau Disgwyliadau ac Ymgysylltu a phosteri electronig a chopïau caled ar gyfer y pencadlys a phob gorsaf. Bydd y cynllun gweithredu hwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymateb i adborth o ffynonellau ymgysylltu eraill, e.e. sesiynau diwylliant ar-lein y Prif Gwnstabl yn ddiweddar, rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth, digwyddiadau Disgwyliadau ac Ymgysylltu.

Mae'r heddlu yn rhan o gynllun peilot ar gyfer offeryn sgrinio seicolegol newydd sy'n cael ei ddatblygu gan y Coleg Plismona (sydd ar hyn o bryd yng nghyfnod profi cychwynnol y Coleg Plismona). Bydd dod yn un o'r heddluoedd sy'n mabwysiadu'r offeryn hwn yn gynnar yn dileu'r angen i barhau â'r dull presennol o ddau holiadur sgrinio gwahanol, yn lleihau costau cysylltiedig ac yn galluogi'r heddlu i sgrinio pawb mewn rolau a ystyrir yn risg uchel yn hyderus (a

ehangwyd yn ddiweddar gan y Prif Swyddog Meddygol i gynnwys swyddogion ymateb).

Roedd y Panel Cyllido Llesiant (SCHTh, yr heddlu, y Ffederasiwn, Cymdeithas yr Uwch-arolygwyr ac UNSAIN) wedi cytuno yn ddiweddar i ariannu sgriniad prostad i'r rhai sy'n gymwys o fewn yr heddlu.

### b) Plismona ymatebol - y galw dros yr haf

Cafod y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y galw am blismona ymatebol ar draws yr Unedau Rheoli Sylfaenol yn ystod yr haf. Yn ystod cyfnod yr haf, profodd yr heddlu gynnydd sylweddol yn y galw am blismona ymatebol, oherwydd mewnlifiad o dwristiaid i ardal yr heddlu ynghyd â darpariaeth gwasanaeth 'busnes fel arfer'. Roedd y galw cynyddol hwn yn ymestyn gallu'r heddlu i ymateb i ddigwyddiadau, yn cynyddu nifer yr ymchwiliadau i droseddau ac yn cynyddu llwythi gwaith cysylltiedig i staff. Mae troseddau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn unigolyn, troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'u hadolygu ar gyfer pob Uned Reoli Sylfaenol i bennu'r galw dros y meysydd allweddol hyn. Teimlwyd y cynnydd yn genedlaethol ar gyfer cydgymorth gan yr Unedau Rheoli Sylfaenol, a chynigiwyd goramser ychwanegol i gwmpasu gyflenwi swyddogion ar ddyletswyddau eraill.

Dyma'r meysydd a amlygwyd yn adolygiad ymgyrch Valiant, i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer haf 2026.

- Defnyddio 'gwersi a ddysgwyd' o 2025 yng nghynllun galw'r haf y flwyddyn nesaf wrth ddadansoddi effaith y defnydd prin o ddiwrnodau gorffwys â thâl.
- Defnyddio strwythur llywodraethu ymgyrch Valiant ar gyfer cynlluniau'r dyfodol a nodi sut i wella dull yr heddlu o ymdrin â'r diwrnodau gorffwys â thâl lluosog sydd ar gael i sicrhau cydnerthedd cytbwys ar draws pob maes busnes.
- Sicrhau bod cyfarfodydd galw'r haf yn y dyfodol yn nodi'n glir godau cyllideb cywir ymgyrch Valiant er mwyn sicrhau cywirdeb data goramser.
- Adnabod a chydnabod patrymau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnydd yn y galw er mwyn gallu cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y blynyddoedd i ddod. (Gellir defnyddio'r system plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau i ddatrys problemau ac o bosibl atal achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd eto). Mae ymgyrch Ivydene hefyd yn cefnogi hyn drwy gynyddu presenoldeb swyddogion mewn mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Trafododd y bwrdd y newidiadau rota parhaus ac aliniad rotas o fewn yr heddlu.

Dywedodd y CHTh ei fod wedi mynychu cyfarfod Siambr Fasnach Caerfyrddin yn ddiweddar ac wedi cael adborth cadarnhaol ganddynt ynghylch yr heddlu. Trafododd y bwrdd ymgysylltiad yr heddlu â manwerthwyr a rhoddodd y Prif

Gwnstabl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r CHTh ar weithdy a drefnir yn y Pencadlys ym mis Mawrth gan yr Uwch-arolygydd dros Blismona Lifrog.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r SCHTh ynghylch y gweithdy a drefnwyd gyda sefydliadau manwerthu.**

Cododd y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro y cwestiwn gan ystyried y newidiadau mewn patrymau sifftiau a'r cynnydd yn nifer y swyddogion timau plismona ac atal bro, a dibyniaeth ar hyn o bryd ar gyllid ymgyrch Valiant i gefnogi gweithgaredd yn ystod cyfnod yr haf, a yw'n bosibl yn y tymor hir y bydd y gyllideb yn cael ei dargyfeirio i gefnogi gweithgareddau eraill neu a fydd dibyniaeth bob amser ar yr adnoddau a'r goramser ychwanegol i gefnogi'r galw yn yr haf.

Dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai'n hoffi symud ymbellhau o'r ddibyniaeth honno a byddai'n codi'r mater gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid i'w ystyried.

Trafododd y bwrdd y gwerthusiad parhaus o batrymau rota gwasanaeth ymateb yr heddlu.

**Camau gweithredu: - Dylai'r heddlu ystyried a ellid lleihau neu ddargyfeirio cyllid ymgyrch Valiant i rywle arall yn y dyfodol.**

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

**a) A all yr heddlu ddarparu adroddiad diweddaru cynnydd manwl ar brosiect Camau Diogelu LINC ers cyfarfod diwethaf y rhanddeiliaid (Mai 2025), gan gynnwys fel a ganlyn**

- **Cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn cynllun y prosiect.**
- **Prif ganlyniadau a gyflawnwyd ers y diweddariad diwethaf (Mai 2025).**
- **Risgiau, problemau a dibyniaethau cyfredol (a sut mae'r rhain yn cael eu lliniaru).**
- **Unrhyw newidiadau neu heriau i adnoddau neu amserlen arfaethedig y prosiect.**

Rhoddodd y Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro CID, Ross Evans (RE), gyflwyniad i'r bwrdd ynghylch y prosiect Camau Diogelu Linc, prosiect amlasiantaeth sydd wedi bod ar y gweill ers mis Hydref 2023 ynghylch rhannu gwybodaeth am ddiogelu ledled Gorllewin Cymru. Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am fanylion a chamau nesaf y prosiect.

Yn ystod digwyddiad bwrdd diogelu ym mis Hydref 2023, rhannwyd safbwyntiau ynghylch argymhellion mewn adroddiadau ar adolygiadau o laddiadau domestig, adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau achosion difrifol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth yn well. Dilynodd trafodaeth ynghylch gwella arferion rhannu gwybodaeth.

Roedd y weledigaeth ar gyfer y prosiect o safbwynt amddiffyn plant ac roedd yn ymwneud â chynhyrchu system a fyddai'n rhoi'r gofrestr amddiffyn plant ar blatfform a rennir fel nad oedd asiantaethau bellach yn ddibynnol ar nifer o negeseuon e-bost bob wythnos. Bydd y system yn darparu'r gofrestr amddiffyn plant ledled Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a bydd yn diweddaru gwybodaeth mewn amser real. Bydd hefyd yn darparu arwydd pan fydd digwyddiadau penodol fel mynychu Adran Damweiniau ac Achosion Brys, apwyntiadau meddyg teulu, colli ysgol, ar goll o'r cartref ac eraill.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'r partneriaid yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Phrifysgol Abertawe.

Mae'r camau nesaf ar gyfer y prosiect yn cynnwys datblygu cyflwyniad ar y dangosfwrdd ar ddechrau mis Chwefror gyda'r nod o weithredu'r prosiect ym mis Ebrill 2026. Mae cytundeb Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i gwblhau a rhaid dychwelyd ffurflenni rheolwr data i Gyngor Sir Caerfyrddin.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith da'r heddlu gan gynnwys ymgyrch Antwerp ledled yr heddlu, y digwyddiad cloi mewn argyfwng yn Ysgol Bro Myrddin yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau rheng flaen a sefydliadol sylweddol.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers y Bwrdd Plismona diwethaf, gan gynnwys mynychu Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru, cadeirio cyfarfod Partneriaeth Gymunedol a mynychu uwchgynhadledd partneriaeth Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC)/Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).

### c) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Darparodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Adolygiad yr Heddlu bapur diweddaru i'r bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

Mae aelod o staff wedi cael ei secondio i'r tîm i gefnogi'r gwaith o werthuso Adolygiad yr Heddlu a ffrydiau gwaith model gweithredu'r heddlu blaenorol. Byddant yn dechrau cefnogi'r tîm o 4 Chwefror 2026 gyda'u tasg gychwynnol yn gwerthuso'r strwythur plismona gweithredol uwch a weithredwyd ym mis Mawrth 2025, ac yna ehangu'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig a gyflawnwyd yn llawn ym mis Hydref 2024. Bydd hyn yn rhoi amser i ystyried yr adolygiad

academaidd allanol o'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig cyn cynnal gwerthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar yr heddlu.

O ran yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cymysgedd gweithlu, roedd gwaith yn parhau i gyflawni uchelgais y sefydliad i recriwtio 50 o aelodau staff heddlu cyfwerth ag amser llawn er mwyn caniatáu i 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn gael eu rhyddhau o 'swyddogaethau cefn swyddfa' i blismona rheng flaen. Mae dwy ffrwd gyllido yn cefnogi'r fenter hon, sef Gwarant Plismona Bro:33 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau plismona ac atal bro a chyllid praesept:17 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau ymateb yr heddlu mewn lifrai.

Ar hyn o bryd, mae 55% (18 swydd cyfwerth ag amser llawn) o gyfanswm recriwtio staff yr heddlu i alluogi cymysgedd gweithlu ar gyfer y Gwarant Plismona Bro wedi'i gyflawni. Mae'r 18 swyddog cyfwerth ag amser llawn hyn yn cyfrif am 36% o gyfanswm recriwtio staff yr heddlu sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r cyfanswm twf o 50 swyddog cyfwerth ag amser llawn mewn timau plismona ac atal bro a thimau ymateb mewn lifrau o'r ddwy ffrwd ariannu. Roedd sawl proses recriwtio yn mynd rhagddynt, ac roedd rhai eto i'w cychwyn o ganlyniad i sawl her.

Ochr yn ochr â hyn, mae proses datganiadau o ddiddordeb ar gyfer cynyddu niferoedd cwnstabliaid mewn timau plismona ac atal bro wedi cau'n ddiweddar gan arwain at 40 o ymgeiswyr. Mae hyn yn cael ei weinyddu ar hyn o bryd gan Adnoddau Dynol, model gweithredu'r heddlu a chomanderiaid Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn sicrhau'r twf gofynnol ac ar yr un pryd yn ôl-lenwi unrhyw swyddi gwag sy'n bodoli eisoes. Roedd hyn yn cael ei reoli'n agos i leihau'r risg bod yr ymarfer hwn yn effeithio'n andwyol ar niferoedd tîm ymateb yr heddlu mewn lifrai.

Y prif her sy'n wynebu'r rhaglen hon yw prosesau recriwtio, a'r cyflymder angenrheidiol ar gyfer hynny, er mwyn bodloni amserlenni grantiau. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan bwysau capasiti, a/neu amseroedd rhagarweiniol prosesau, mewn meysydd a oedd yn cynorthwyo'r gwaith recriwtio, er enghraifft (heb fod yn hollgynhwysfawr):

- Amseroedd rhagarweiniol / prosesu cyn penodi, fetio a gwiriad meddygol.
- Ail flaenoriaethu a chyflwyno hyfforddiant cyflym i staff yr heddlu newydd eu recriwtio.
- Diddordeb (a llwyddiant) mawr gan staff presennol yr heddlu (yn aml o swyddogaethau hollbwysig eraill) ar gyfer rolau cymysgedd gweithlu staff yr heddlu newydd eu hysbysebu yn unol â'r Gwarant Plismona Bro. Nodwyd bod hyn yn gwaethygu'r heriau recriwtio oherwydd yr angen am ragor o recriwtio a chyfnodau hyfforddi i lenwi'r bylchau a adawyd gan ymgeiswyr mewnol llwyddiannus.

### d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparwyd papur diweddaru i'r bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Yn dilyn adolygiad o'r cwestiwn asesiad o'r effaith ar ddiogelu data arfaethedig a osodwyd gan y Swyddog Diogelu Data a'r Cynghorydd Diogelu Data lle cadarnhawyd roedd sawl bwlch, cyfarfu'r Cynghorydd Diogelu Data â TGCh. Sefydlwyd bod llawer o waith i'w wneud o hyd ar y system arfaethedig cyn y gellir ei datblygu ymhellach. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r set cwestiynau i gyd-fynd â gofynion maes busnes rheoli gwybodaeth a gofynion Deddf Data (Defnydd a Mynediad)[1] 2025. Mae hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o'r holl asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data sy'n weddill i sicrhau mai dim ond gwaith 'byw' sy'n cael ei drosglwyddo i'r system newydd. Mae'r Cynghorydd Diogelu Data wedi cynnal adolygiad trylwyr o holl ffeiliau 2024–2025, a bydd yr adolygiad o'r ffeiliau hŷn yn parhau. Mae'r Cynghorydd Diogelu Data hefyd yn trefnu cyfarfod ag aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio a allai fod â barn ar y system, yn enwedig sut y gall y system gysylltu ag agweddau eraill ar y gwaith e.e. y cofnod o weithgareddau prosesu a'r cofrestr asedau gwybodaeth.

Mae cyfarfod blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data misol a fynychir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Diogelu Data yn parhau. Caiff asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data eu blaenoriaethu yn unol â rhestr flaenoriaethu. Mae'r broses hon wedi profi i fod yn fuddiol, ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau i fod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae'r heddlu wedi cael diweddariad gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ynghylch Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 sy'n cynnwys manylion am yr effaith y bydd y newidiadau'n ei chael ar luoedd yr heddlu a chamau gweithredu i'r heddlu eu cymryd.

Mae llawer o'r camau gweithredu yn nodi bod canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cael eu hadolygu. Bydd llawer o'r camau gweithredu yn gofyn am newidiadau i bolisi a phrosesau yn yr heddlu a byddant hefyd yn ddibynnol ar ganllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Bydd rhai o'r camau gweithredu yn gysylltiedig â chynlluniau gweithredu a gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn yr adran. Mae'r newidiadau'n cynrychioli darn sylweddol o waith i'r Tîm Diogelu Data.

Mae'r heddlu yn cyhoeddi holiadur diogelwch gwybodaeth a diogelu data i gyflenwyr fel rhan o'r broses gaffael. Mae staff TGCh a Rheoli Gwybodaeth yn adolygu'r ymatebion. Mae'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn cynorthwyo'r broses adolygu gan y gellir ystyried unrhyw risgiau a godir fel rhan o'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wrth adolygu ymatebion cyflenwyr. Ar hyn o bryd, cynhelir y broses hon gan ddefnyddio taenlen a ddarperir i gyflenwyr gan y Tîm Caffael. Mae'n broses drafferthus a gall, oherwydd oediadau, effeithio'n negyddol ar brosesau caffael. Mae cais wedi'i gyflwyno drwy'r Grŵp Asesu Syniadau Digidol am broses awtomataidd. Mae'r Tîm Rheoli Gwybodaeth wrthi'n trafod â heddluoedd eraill yng Nghymru gyda'r bwriad o gytuno ar holiadur diogelwch gwybodaeth Cymru gyfan a fyddai'n darparu gwerthusiad trylwyr trwy fapio'n gynhwysfawr i Fframwaith Seiberddiogelwch 2.0

NIST. Bydd y Tîm Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth (IMBA) yn cydweithio'n agos â TGCh a Chaffael wrth i hyn ddatblygu.

Mae'r heriau yn y dyfodol yn parhau fel a ganlyn:

- Mae heriau llywodraethu gwybodaeth a bygythiadau diogelwch gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i ddeallusrwydd artiffisial, seiber-ymosodiadau, teilwra cymdeithasol a'r gadwyn gyflenwi yn parhau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Sicrwydd Deallusrwydd Artiffisial ar 5 Rhagfyr. Yr elfen gyntaf dan ystyriaeth yw Copilot Chat.
- Heriau a llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth yr heddlu â fframwaith Asesiad Diogelwch ar gyfer Plismona ar gyfer Tîm IMBA (maes busnes rheoli gwybodaeth), TGCh ac adrannau eraill sy'n cyfrannu at y fframwaith.
- Maint y gwaith yn y maes hwn a'r effaith y mae oedi yn ei chael ar blismona gweithredol a phrosesau busnes corfforaethol.
- Mae'r Tîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sefydlu Cod Ymddygiad Rhannu Gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data (Erthygl 40 GDPR y DU). Os bydd hyn yn cael cymeradwyaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, bydd hyn yn arwain at fwy o heriau a llwyth gwaith ychwanegol i sefydliadau sydd wedi ymuno â'r cytundeb gan gynnwys yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Dywedodd y CHTh y cysylltwyd ag ef yn ddiweddar ynghylch oedi wrth i unigolion cael eu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynnodd am ddiweddariad gan yr heddlu ynghylch hyn.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch amseroldeb gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

Holodd y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro am yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun peilot Copilot o fewn yr heddlu. Roedd yr SCHTh wedi cytuno i fod yn adran beilot ar gyfer y cyflwyniad ac nid oedd wedi cael unrhyw wybodaeth bellach ynghylch cyflwyno'r cynllun peilot.

**Camau gweithredu: - Diweddariad i'w ddarparu ynghylch cyflwyno'r cynllun peilot Copilot o fewn yr heddlu.**

### e) Atal/Ymyrraeth/Ymgysylltu: Plant a Phobl Ifanc

Cafodd y bwrdd adroddiad diweddaru ynghylch Atal, Ymyrraeth, Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Yn dilyn cyfweliadau, cynigiwyd swydd Dadansoddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant i ymgeisydd ac mae Adnoddau Dynol wedi dechrau eu gwiriadau cyn-gyflogaeth a fetio. Mae swydd Hyfforddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ac sy'n Ystyriol o Drawma yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Bydd yr asesiadau swydd ar gyfer rolau'r Gweithiwr Allgymorth Addysg Bellach a Gweithiwr Atal yr Heddlu wedi'u cwblhau erbyn 16 Chwefror.

Aeth prosiect eiliadau hygyrch yn y ddalfa yn fyw ar 12 Ionawr 2026.

Cynhelir digwyddiad gwelliant parhaus amlasiantaeth mewn perthynas â gwarediad ieuenctid tu allan i'r llys ar 28 Ionawr 2026. Pwrpas y digwyddiad yw dod â phartneriaid allweddol ynghyd i ddadansoddi, deall a datrys y materion a nodwyd yn ymatebion Heddlu Dyfed-Powys i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghylch penderfyniadau gwarediad ieuenctid tu allan i'r llys a gweithgarwch plismona ehangach sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Dywedodd y CHTh fod Swyddog Polisi o'r SCHTh wedi'i secondio i weithio ar y prosiect, a'i fod yn cael diweddariadau rheolaidd ar y ffrwd waith hon.

## 6) Unrhyw fater arall

**a)** Llythyr trosglwyddai ymgyrch Jorica - Dyfed-Powys

Trafododd y bwrdd y llythyr a ddaeth i law gan yr Heddlu Metropolitanaidd ynghylch ymgyrch Jorica. Ceisiodd y CHTh sicrwydd gan y Prif Gwnstabl ynghylch yr adolygiad o arferion fetio a recriwtio hanesyddol ynghylch trosglwyddo i'r heddlu

Esboniodd y Prif Gwnstabl fod hyn yn risg isel i'r heddlu gan ei fod wedi cael sicrwydd gan yr Adran Safonau Proffesiynol bod yr heddlu'n cydymffurfio â'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig.

**b)** Trefniadau diogelwch y Prif Gwnstabl.

Yn dilyn adolygiad o drefniadau diogelwch y Prif Gwnstabl, roedd y CHTh wedi ceisio sicrwydd gan y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro bod y gyllideb berthnasol ar gael, ac felly y gallai'r trefniadau angenrheidiol symud ymlaen.

**Penderfyniad: - Cytunodd y CHTh ar y diweddariadau i drefniadau diogelwch y Prif Gwnstabliaid yn dilyn adolygiad a chadarnhad o'r gyllideb sydd ar gael.**

**c) Trefniadau TG - y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Cododd y CHTh y mater parhaus o aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn methu cael mynediad i bapurau ar sianel Microsoft Teams

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch mynediad i sianel Teams ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio.**

**d) Cyllid refeniw uniongyrchol**

Trafododd y bwrdd awgrym gan y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro y dylai'r heddlu ystyried defnyddio'r tanwariant presennol ar gyfer cyllid refeniw uniongyrchol yn ystod y flwyddyn i arbed llog. Dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai'n codi hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid i'w ystyried.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ystyried a ellir defnyddio'r tanwariant cyllidebol presennol ar gyfer cyllid refeniw uniongyrchol yn ystod y flwyddyn.**

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 21 Ionawr 2026 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| PB 111 | Yr heddlu i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r SCHTh ynghylch y gweithdy a drefnwyd gyda sefydliadau manwerthu. | Heddlu |
| PB 112 | Yr heddlu i ystyried a ellid lleihau neu ddargyfeirio cyllid ymgyrch Valiant i rywle arall yn y dyfodol. | Heddlu |
| PB 113 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch amseroldeb gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Heddlu |
| PB 114 | Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyflwyno'r cynllun peilot Copilot o fewn yr heddlu. | Heddlu |
| PB 115 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch mynediad at sianel Teams ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio. | Heddlu |
| PB 116 | Yr heddlu i ystyried a ellir defnyddio'r tanwariant cyllidebol presennol ar gyfer cyllid refeniw uniongyrchol yn ystod y flwyddyn. | Heddlu |

DIWEDD